

## Tasg 2

Mae un sefyllfa ddrwg iawn ar y tâp.

- Pa un?
- Gwrandewch ar y darn hwnnw eto. Yna, gyda phartner, actiwch y sefyllfa, ond heb golli tyme'r a heb weiddi! Byddwch yn fwy cwrtais.

Meddyliwch am sefyllfaoedd eraill lle mae pobl yn gweiddi.  
Pam mae pobl yn gweiddi yn y sefyllfaoedd yna?

Gwnewch restr.

Ble?	Pam?

### Oeddech chi'n gwybod...?

Os ydych chi'n defnyddio prif lythrennau neu lythrennau mawr mewn neges e-bost, rydych chi'n "gweiddi" ar y person fydd yn derbyn y neges. Felly...

~~PEIDIWICH Â DEFNYDDIO PRIF LYTHRENNAU!~~

Wps!

Peidiwch â defnyddio prif lythrennau!

### Oeddech chi'n gwybod...?

Mae gan rai ysgolion bolisi "Dim gweiddi" a hyd yn oed "Dim codi llais"!

Mae'r polisi yma ar gyfer y disgyblion a'r athrawon!  
Beth ydych chi'n ei feddwl o'r syniad?